Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Mehefin 2008 June

Cylchlythyr/Newsletter

www.ygmg.com

Staff

Croeso i Mrs Siwan Drake sydd wedi ymuno â staff yr ysgol.
A warm welcome to Mrs Siwan Drake who has recently joined the school staff.

Perfformio / Performances

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y disgyblion wrth iddynt berfformio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Conwy, ac yng ngwyl Tafwyl, Caerdydd.

Many thanks to everyone who supported the pupils recently in the Urdd National Eisteddfod, Conwy, and in Tafwyl, Cardiff.

Holiaduron / Questionnaires

Diolch i bawb a gwblhaodd holiaduron y rhieni—dychwelwyd 80 ohonynt i'r ysgol. Mi fyddwn yn dadansoddi'r holiaduron yn ystod yr wythnosau nesaf a bydd materion o bwys yn cael eu gosod ar gynllun gwella'r ysgol neu yn derbyn sylw priodol.

Thanks to everyone who completed the parental questionnaires recently—80 were returned to school. During the next few weeks, we will be analysing the responses and important issues will be placed on the School's Improvement Plan or will receive the appropriate consideration.

Asesiadau / Assessments

Gosodwyd asesiadau athrawon ar adroddiadau blynyddoedd 2 a 6 yn ddiweddar. Mae 'na groeso i chi gysylltu â ni os hoffech drafod asesiadau eich plentyn.

Teacher assessments were recently included on the school reports for years 2 and 6. Please feel free to contact the school if you wish to discuss these assessments.

Esgidiau pêl droed / Football boots

Os oes gennych hen esgidiau pel droed adre, mae 'na groeso i chi eu danfon i'r ysgol. Mi fyddwn yn eu gwerthu am £3 y pâr—arian yn mynd at elusennau lleol.

If you have any spare junior football/rugby boots at home please feel free to donate them to the school. In turn, we will resell them for £3 a pair—all proceeds donated to local charities.

Dosarthiadau mis Medi / Class structure September (amended)

Trosodd / Please turn over